Estyn

Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru
Her Majesty's Inspectorate for Education and Training in Wales

# Adroddiad ar

# Toy Box
# Coleg Cambria
# Ffordd Celstryn
# Cei Connah
# Y Fflint
# CH5 4BR

**Dyddiad yr arolygiad: Mawrth 2016**

**gan**

**Anne Manning**
**Arolygydd Cofnodol**

**ar gyfer**

**Estyn, Arolygiaeth Ei Mawrhydi dros Addysg a Hyfforddiant yng Nghymru**

Yn ystod pob arolygiad, nod arolygwyr yw ateb tri chwestiwn allweddol:

**Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw'r deilliannau?**
**Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw'r ddarpariaeth?**
**Cwestiwn Allweddol 3: Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?**

Mae arolygwyr hefyd yn rhoi barn gyffredinol ar berfformiad presennol y lleoliad a'i ragolygon gwella.

Yn yr arfarniadau hyn, mae'r arolygwyr yn defnyddio graddfa bedwar pwynt:

| **Barn** | **Yr hyn mae'r farn yn ei olygu** |
|---|---|
| **Rhagorol** | Llawer o gryfderau, gan gynnwys enghreifftiau arwyddocaol o arfer sy'n arwain y sector |
| **Da** | Llawer o gryfderau a dim meysydd pwysig sydd angen eu gwella'n sylweddol |
| **Digonol** | Mae cryfderau'n gorbwyso'r meysydd i'w gwella |
| **Anfoddhaol** | Mae'r meysydd pwysig i'w gwella yn gorbwyso'r cryfderau |

Cymerwyd pob rhagofal posibl i sicrhau bod y wybodaeth yn y ddogfen hon yn gywir adeg ei chyhoeddi. Dylid cyfeirio unrhyw ymholiadau neu sylwadau ynglŷn â'r ddogfen hon/cyhoeddiad hwn at:

Yr Adran Gyhoeddiadau
Estyn
Llys Angor, Heol Keen
Caerdydd
CF24 5JW neu drwy anfon e-bost at cyhoeddiadau@estyn.llyw.cymru

Mae'r cyhoeddiad hwn a chyhoeddiadau eraill gan Estyn ar gael ar ein gwefan: www.estyn.llyw.cymru

**Cyfieithwyd y ddogfen hon gan Trosol (Saesneg i Gymraeg).**

**© Argraffydd y Frenhines a Rheolwr HMSO 2016: Gellir ailddefnyddio'r adroddiad hwn yn ddi-dâl mewn unrhyw fformat neu gyfrwng ar yr amod y caiff ei ailddefnyddio'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod yr hawlfraint yn y deunydd fel y nodwyd uchod a rhaid nodi teitl yr adroddiad penodol.**

**Dyddiad cyhoeddi: 13/05/2016**

## Cyd-destun

Mae Meithrinfa Toy Box wedi’i lleoli ar safle Coleg Cambria yng Nghei Connah, Sir y Fflint. Mae’r feithrinfa mewn adeilad wedi’i drawsnewid ar y campws a dim ond y feithrinfa sy’n defnyddio’r adeilad. Mae’r lleoliad cyfrwng Saesneg hwn yn cael ei oruchwylio gan unigolyn cyfrifol sydd hefyd yn bennaeth y coleg. Mae rheolwr meithrinfa ac ymarferwyr yn rhedeg y grŵp o ddydd i ddydd.

Mae’r feithrinfa ar agor bob dydd o 8.00am tan 5.45pm, heblaw gwyliau banc, am 51 wythnos y flwyddyn.

Mae’r lleoliad wedi’i gofrestru gydag Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru ar gyfer 106 o blant. Mae rhieni tua 60 o’r 120 o blant ar y gofrestr yn mynychu Coleg Cambria er mwyn ennill cymhwyster.

Mae’r holl blant sy’n mynychu yn blant Prydeinig a Saesneg yw eu mamiaith. Mae gan ganran bach iawn o blant anghenion dysgu ychwanegol. Mae naw o blant tair oed yno sy’n cael eu hariannu; fodd bynnag, nid oedd pob un o’r rhain yn bresennol adeg yr arolygiad. Mae’r plant sy’n mynychu yn byw yn yr ardal leol y bennaf ac yn dod o amrywiaeth o gefndiroedd.

Mae’r lleoliad yn derbyn cymorth gan awdurdod lleol Sir y Fflint ac mae’n enghraifft ragorol o arfer dda. Mae’r feithrinfa yn aelod o Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd a Chymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru.

Cynhaliwyd arolygiad diwethaf AGGCC yn Chwefror 2015 ac arolygiad diwethaf Estyn yn 2011.

## Crynodeb

| Perfformiad presennol y lleoliad | Rhagorol |
|---|---|
| Rhagolygon gwella'r lleoliad | Rhagorol |

### Perfformiad presennol

Mae perfformiad presennol y lleoliad yn rhagorol oherwydd:

- Mae ymarferwyr yn cydweithio'n hynod effeithiol i gynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu arloesol a chyffrous i'r plant;
- Mae profiadau yn yr awyr agored yn rhoi lefel ragorol o her i'r plant ac yn adeiladu'n dda ar eu gwybodaeth a'u medrau presennol;
- Mae ymarferwyr yn gymwysedig a phrofiadol iawn a chaiff adnoddau o ansawdd uchel eu paru'n dda ag anghenion y plant a chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen; ac
- Mae'r feithrinfa'n integreiddio unrhyw blant ag anableddau yn hynod effeithiol

### Rhagolygon gwella

Mae'r rhagolygon gwella yn rhagorol oherwydd:

- Mae'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth yn eithriadol;
- Mae hunanarfarnu hynod effeithiol yn sefydledig ac yn cysylltu â chynllun busnes y coleg;
- Mae gwerthuso ymarferwyr yn effeithiol iawn. Caiff hyfforddiant ei arfarnu'n llwyddiannus ac mae wedi bod o werth eithriadol er budd y plant.
- Mae ardal awyr agored fechan wedi'i datblygu'n ysgol goedwig. Dyma nodwedd wych o'r lleoliad; ac
- Mae adnoddau o ansawdd uchel yn cefnogi'r ddarpariaeth yn effeithiol

## Argymhellion

A1 Datblygu partneriaethau ag ysgolion lleol ymhellach i sicrhau trefniadau pontio da i blant pan fyddant yn ymadael â'r lleoliad

A2 Dangos y deilliannau penodol i'r plant yng nghynllun gweithredu'r hunanarfarniad yn glir bob amser

**Beth sy'n digwydd nesaf?**

Bydd y lleoliad yn llunio cynllun gweithredu sy'n dangos sut y bydd yn mynd i'r afael â'r argymhellion.

Bydd Estyn yn gwahodd y lleoliad i baratoi astudiaeth achos ysgrifenedig, yn disgrifio'r arfer ragorol a nodwyd yn ystod yr arolygiad.

## Prif ganfyddiadau

| Cwestiwn Allweddol 1: Pa mor dda yw’r deilliannau? | Dd/B |
|---|---|

**Safonau: Dd/B**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, safonau o ran datblygiad eu medrau, y Gymraeg na lles gan nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i allu adrodd arnynt, heb ddatgelu pwy yw’r plant unigol.

**Lles: Dd/B**

Nid oes adroddiad ar gynnydd plant, safonau o ran datblygiad eu medrau, y Gymraeg na lles gan nad oedd digon o blant perthnasol yn bresennol adeg yr arolygiad i allu adrodd arnynt, heb ddatgelu pwy yw’r plant unigol.

| Cwestiwn Allweddol 2: Pa mor dda yw’r ddarpariaeth? | Rhagorol |
|---|---|

**Profiadau dysgu: Rhagorol**

Mae ymarferwyr yn cydweithio’n hynod effeithiol i gynllunio amrywiaeth o brofiadau dysgu arloesol a chyffrous i’r plant, fel yr wythnos wersylla, pan fydd y plant yn dod â’u pebyll i’r lleoliad. Mae’r gwaith cynllunio’n rhoi ystyriaeth dda i ddiddordebau’r plant ac mae’n dangos yn glir sut y caiff llythrennedd a rhifedd eu datblygu’n effeithiol trwy weithgareddau. Mae’r holl blant yn ymroi’n hynod lwyddiannus i’w dysgu, yn enwedig y tu allan yn yr ysgol goedwig. Mae’r cynllunio’n cysylltu’n llwyddiannus â deilliannau’r Cyfnod Sylfaen ac mae’n hynod hyblyg ar gyfer gwahanol anghenion ac arddulliau dysgu plant.

Mae profiadau’n cynnig lefel ragorol o her i’r plant ac yn adeiladu’n dda ar eu gwybodaeth a’u medrau presennol. Mae profiadau dysgu yn annog plant i fod yn ddysgwyr annibynnol sy’n cymryd cyfrifoldeb am eu dysgu eu hunain yn dda. Er enghraifft, maent yn dosbarthu platiau neu gwpanau heb i ymarferwyr ofyn iddynt wneud. Maent yn cael cyfleoedd i ddewis tasgau ac, felly, datblygu hunanhyder. Mae pob un ohonynt yn dangos y parch mwyaf tuag at adnoddau ac yn helpu eu ffrindiau.

Mae ymarferwyr yn datblygu medrau llythrennedd plant trwy rannu llyfrau, gan gynnwys llyfrau sydd wedi’u hysgrifennu yn Gymraeg a thrwy adrodd storïau. Mae cyfleoedd da iawn i’r plant wneud marciau gan ddefnyddio amrywiaeth o gyfryngau ac adnabod eu henwau wrth iddynt gofrestru eu hunain gyda’u rhieni. Mae amrywiaeth wych o weithgareddau, yn enwedig y tu allan, fel cyfrif coesau ar bry cop, yn datblygu medrau rhifedd plant yn dda.

Trwy ddefnyddio amrywiaeth dda o offer technoleg gwybodaeth a chyfathrebu, mae hyn yn sicrhau bod plant yn dysgu sut mae technoleg yn gweithio a sut y gall ei helpu yn eu gwaith.

Caiff plant brofiadau o safon uchel sy'n datblygu eu medrau corfforol a chreadigol yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn dangos yn llwyddiannus i'r plant sut i drin a thrafod bwystfilod bach gyda gofal a pharch.

Mae plant yn cael cyfleoedd da i glywed a defnyddio'r Gymraeg trwy gyfleoedd wedi'u cynllunio a chyfleoedd achlysurol, ac maent yn dathlu gwyliau Cymru, fel Dydd Gŵyl Dewi a Dydd Santes Dwynwen. Gwnânt fisgedi gyda'r arth, Ticw, ac maent yn cymryd rhan mewn gweithdai ar gennin Pedr i ymestyn eu gwybodaeth a'u dealltwriaeth o rai o draddodiadau Cymru.

Mae ymwelwyr â'r lleoliad, fel y gwasanaeth tân a'r fan hufen iâ – pan gaiff y plant brynu hufen iâ – yn sicrhau bod profiadau'r plant yn amrywiol a chyfoethog.

**Addysgu: Rhagorol**

Mae'r holl ymarferwyr wedi cael eu briffio'n arbennig o dda ac mae ganddynt wybodaeth ragorol am gwricwlwm y Cyfnod Sylfaen a sut mae plant yn dysgu. Mae disgwyliadau hynod uchel ar gyfer y plant a chaiff y rhain eu gwireddu yn ymarferol. Mae system gadarn y gweithwyr allweddol yn sicrhau'n effeithiol bod ymarferwyr yn meddu ar ddealltwriaeth fanwl, ragorol o'r plant.

Mae cydbwysedd rhagorol o weithgareddau dan gyfarwyddyd oedolion a gweithgareddau wedi'u harwain gan y plant, ac mae'r holl ymarferwyr yn fedrus iawn o ran gwybod pryd i ymyrryd mewn chwarae'r plant a phryd i'w gadael i ddarganfod yn annibynnol. Er enghraifft, pan fyddant yn yr ysgol goedwig, mae plant yn darganfod beth sy'n digwydd pan gaiff dŵr ei gymysgu â mwd a sut mae amrywiol gyfuniadau yn gwneud gwahaniaeth i'r cynnyrch gorffenedig.

Caiff plant gyfleoedd gwych i arbrofi ar eu lefel unigol, ac mae ymarferwyr yn hwyluso eu dysgu trwy chwarae. Mae ymarferwyr yn cyflwyno syniadau a phroblemau newydd i'w datrys mewn modd hynod effeithiol. Mae gan bob un ohonynt lawer o symbyliad a brwdfrydedd, ac maent yn deall yn dda sut mae plant yn dysgu. Gwyddant beth yw'r cyfleoedd datblygu a'r deilliannau disgwyliedig ym mhob gweithgaredd yn glir iawn.

Mae ymarferwyr yn fodelau rhagorol o ymddygiad. Defnyddiant holi yn arbennig o dda i ddatblygu medrau meddwl y plant a heriant syniadau'r plant yn effeithiol i sicrhau cyfleoedd dysgu o ansawdd uchel. Gwnânt ddefnydd rhagorol o brofiadau digymell; er enghraifft, pan ddaethpwyd o hyd i bry cop marw yng nghornel eu lloches, fe wnaeth yr ymarferwr ei ddal yn ofalus fel y gallent yn edrych yn fanwl ar ei strwythur.

Mae ymarferwyr yn gwneud arsylwadau rheolaidd defnyddiol o'r plant ac yn defnyddio'r rhain yn effeithiol wrth gynllunio gweithgareddau. Caiff camau nesaf plant eu nodi'n llwyddiannus a chaiff rhieni wybod am gynnydd eu plant a sut y gallant eu helpu gartref.

**Gofal, cymorth ac arweiniad: Da**

Mae'r gweithgareddau a'r profiadau dysgu o ddydd i ddydd yn hybu iechyd a lles plant yn effeithiol, gan gynnwys eu datblygiad ysbrydol, moesol a diwylliannol. Mae datblygiad cymdeithasol yr holl blant yn dda. Maent yn dechrau ffurfio perthnasoedd

â'i gilydd a'r oedolion o'u cwmpas. Maent yn rhyngweithio'n dda â'i gilydd ac yn helpu eu ffrindiau. Mae ychydig ohonynt yn dechrau dangos pryder tuag at eraill. Caiff plant gyfleoedd da i ddatblygu medrau corfforol y tu allan ac maent yn dod yn fwyfwy ymwybodol o gadw'n iach a gofalu am eu hamgylchedd.

Mae plant yn meddu ar ddealltwriaeth dda o dda a drwg ac mae'r holl blant yn ymddwyn yn dda. Mae'r lleoliad yn meithrin gwerthoedd gonestrwydd, tegwch a pharch. Mae ymwelwyr ac ymweliadau â'r fro yn llwyddo i ddatblygu ymdeimlad o chwilfrydedd ac yn ymestyn a chyfoethogi dysgu'r plant.

Mae'r feithrinfa'n cynnig lefelau uchel o gymorth o ansawdd da i'r plant a'u teuluoedd ac mae unrhyw blant ag anableddau neu anghenion dysgu ychwanegol yn cael eu hintegreiddio'n dda. Ceir trefniadau addas, er enghraifft gosod targedau, i helpu'r plant i gyflawni. Mae gan ymarferwyr strategaethau priodol ar gyfer plant sydd angen help ychwanegol â'u dysgu ac mae cysylltiadau da ag amrywiaeth briodol o weithwyr proffesiynol allanol fel bod plant yn gwneud cynnydd da.

Mae recriwtio diogel, mae polisïau a gweithdrefnau priodol ar waith ar gyfer amddiffyn plant a diogelu, ac mae ymarferwyr wedi ymgymryd â hyfforddiant. Mae'r lleoliad yn ddiogel a gwnaed asesiadau risg cynhwysfawr iawn, yn enwedig i gadw'r plant yn ddiogel yn amgylchedd yr ysgol goedwig. Mae gan yr holl ymarferwyr dystysgrif Cymorth Cyntaf gyfredol er mwyn gofalu am blant yn briodol. O ganlyniad, mae trefniadau'r lleoliad ar gyfer diogelu plant yn bodloni gofynion ac nid ydynt yn destun pryder.

**Yr amgylchedd dysgu: Da**

Mae ethos cadarnhaol yno ac mae'r lleoliad yn galluogi pob plentyn i fanteisio'n gyfartal ar y cwricwlwm yn effeithiol. Mae ymarferwyr yn adnabod y plant yn eithriadol o dda ac, o ganlyniad, maent yn ymateb yn llwyddiannus i'w hanghenion. Mae'r lleoliad yn cynnig amgylchedd cefnogol lle y mae'r holl blant yn dangos agwedd oddefgar at ei gilydd.

Mae ystod effeithiol o bolisïau a gweithdrefnau, sy'n hysbys i bawb, yn cefnogi'r plant a'u teuluoedd yn dda. Mae'r feithrinfa yn integreiddio unrhyw blant ag anableddau ac anghenion dysgu ychwanegol yn hynod effeithiol ac mae polisi yn adlewyrchu ac yn hybu'r ethos hwn yn llwyddiannus.

Mae ymarferwyr yn gymwysedig ac yn brofiadol iawn ac mae adnoddau o ansawdd uchel yn cael eu paru'n dda ag anghenion y plant a chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen.

Mae'r adeilad yn ddiogel ac yn cael ei gynnal a chadw'n dda. Fe'i defnyddir yn effeithiol a chaiff yr amgylchedd lleol a thir y coleg eu defnyddio'n dda i ategu dysgu'r plant.

| | | |
|---|---|---|
| **Cwestiwn Allweddol 3:** | **Pa mor dda yw'r arweinyddiaeth a'r rheolaeth?** | **Rhagorol** |

**Arweinyddiaeth: Rhagorol**

Ceir arweinyddiaeth ragorol yn y feithrinfa sydd wedi datblygu'r ddarpariaeth, gwella deilliannau a gwella lles ar gyfer y plant. Mae'r holl ymarferwyr yn meddu ar

ddealltwriaeth ragorol o'u cyfrifoldebau. O ganlyniad, maent i gyd yn cyflawni eu rolau yn hynod effeithiol ac yn bodloni anghenion y plant. Mae profiadau fel y rhai yn yr ysgol goedwig yn arloesol ac o ansawdd eithriadol o uchel.

Mae cyfeiriad clir ac ymdeimlad o ddiben. Mae'r rheolwr yn gweithio ar y cyd ag uwch staff eraill yn y coleg ac mae hyn yn sicrhau dull hynod effeithiol o gynllunio strategol a symud y lleoliad yn ei flaen.

Mae ymarferwyr hynod broffesiynol yn rhannu gwerthoedd, nodau ac amcanion, ac yn dangos dealltwriaeth wych o blant a sut mae plant yn dysgu. Mae gweithdrefnau effeithiol ar waith ar gyfer sefydlu ymarferwyr newydd. Mae sesiynau goruchwylio yn cynnwys arsylwi gan gymheiriaid ac maent yn llywio gwerthusiadau blynyddol sy'n amlygu anghenion hyfforddi yn llwyddiannus, fel y gall ymarferwyr ddiweddaru eu gwybodaeth a gwybod beth i'w wneud i wella. Mae'r dirprwy reolwr wedi ymgymryd â hyfforddiant ysgol goedwig ac, o ganlyniad, mae hyn wedi cael effaith wych ar y deilliannau i blant ac wedi rhoi profiadau awyr agored rhagorol iddynt.

Mae'r ymarferwyr wedi gwneud defnydd rhagorol o ardal wrth ochr y trac rhedeg a'i throi'n ysgol goedwig. Mae'r ffordd y mae'r darn bach iawn o dir hwn wedi'i droi'n ysgol goedwig mewn ffordd mor syml yn eithriadol.

Mae arweinwyr yn talu sylw effeithiol i gyflawni mentrau lleol a chenedlaethol fel llythrennedd, rhifedd, Cynllun Gwên a bwyta'n iach.

### Gwella ansawdd: Rhagorol

Mae'r feithrinfa wedi gwneud cynnydd rhagorol ers yr arolygiad blaenorol. Er enghraifft, mae'r lleoliad wedi datblygu darn bach o dir a'i drawsnewid yn ardal ysgol goedwig wych er mwyn i'r plant ddysgu yn yr awyr agored.

Mae'r lleoliad yn nodi cryfderau yn gyson dda ac yn adeiladu'n llwyddiannus ar y rhain. Mae'r meysydd i'w gwella yn y broses hunanarfarnu yn datblygu'n dda ac yn cysylltu'n effeithiol â deilliannau a lles gwell i'r plant. Mae cynlluniau gweithredu i ddatblygu'r gwasanaeth ar waith ond, ambell waith, nid yw'r rhain bob amser yn dangos yn glir sut y gall deilliannau penodol i'r plant gael eu gwella.

Mae hunanarfarnu yn cynnwys yr holl ymarferwyr, rhieni a phlant, ac mae hyn yn ei dro yn cysylltu'n hynod effeithiol â chynllun busnes cyffredinol y coleg. Mae'n cynnwys datblygiadau parhaus, fel addurno, a datblygiadau arloesol fel yr ysgol goedwig. Mae pob un o'r ystafelloedd yn y feithrinfa yn cynnal ei hunanarfarniad ei hun, sy'n ystyried sut caiff ardaloedd penodol eu defnyddio, fel y gall ymarferwyr fonitro pa mor aml y mae plant yn defnyddio ardal ddysgu. Oherwydd hyn, gall ymarferwyr fodloni anghenion y plant mewn modd hyblyg iawn gan eu bod yn gallu addasu nid yn unig weithgareddau, ond hefyd ardaloedd dysgu i sicrhau eu potensial llawn ar gyfer cynnydd y plant.

Mae ymarferwyr yn cymryd rhan yn llawn mewn datblygiad proffesiynol ac yn cyfrannu'n wych at hyfforddiant mewnol er mwyn gwella gwybodaeth a medrau ymarferwyr eraill. Caiff effaith hyfforddiant allanol ei harfarnu'n hynod effeithiol a'i mesur o safbwynt cynnydd a lles y plant. Mae ymarferwyr wedi ymweld â safleoedd eraill i rannu arfer dda.

**Gweithio mewn partneriaeth: Da**

Mae’r lleoliad yn enghraifft ragorol o arfer dda ar gyfer yr awdurdod lleol ac mae ymwelwyr wedi bod i’r lleoliad i arsylwi’r ymarferwyr ar waith. Mae’r lleoliad yn gweithio’n agos gyda’r awdurdod lleol ac mae partneriaeth hynod effeithiol ar waith. Mae’r lleoliad yn gweithredu’n gyflym i wneud newidiadau sy’n cael effaith gadarnhaol ar y plant ac yn cael adnoddau newydd, fel gemau rhif, o ganlyniad uniongyrchol i gwrs hyfforddi.

Mae partneriaeth dda iawn gyda rhieni ac roedd y naw holiadur a ddychwelwyd gan rieni yn mynegi boddhad mawr â’r feithrinfa a’r addysg a ddarperir i’w plant. Dywedont eu bod yn cael gwybodaeth lawn am waith y feithrinfa a chynnydd eu plant. Mae rhieni’n cael DVD o gyngerdd y Nadolig fel y gallant siarad am y profiad gyda’u plentyn gartref ac, felly, atgyfnerthu dysgu.

Mae system effeithiol o weithwyr allweddol yn sicrhau bod rhieni’n gwybod pwy sy’n gweithio gyda’u plentyn a bod gan yr ymarferwr hwnnw wybodaeth fanwl am eu plentyn.

Mae partneriaeth ddatblygol gydag ysgolion lleol yn sicrhau bod trefniadau pontio effeithiol i’r plant.

Mae’r feithrinfa yn aelod o Gymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd a Chymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru. Mae’r ddau sefydliad yn rhoi cymorth da i’r lleoliad er mwyn gwella lles y plant.

**Rheoli adnoddau: Da**

Mae’r lleoliad yn rheoli ei adnoddau ei hun yn effeithiol. Mae adnoddau o ansawdd uchel yn symbylu’r plant i ddysgu ac, o ganlyniad, gwnânt gynnydd da ac maent yn awyddus ac yn frwdfrydig i ddysgu. Mae adnoddau’n bodloni anghenion y plant sy’n mynychu a chwricwlwm y Cyfnod Sylfaen. Mae’r cyfleusterau i’r plant yn rhagorol, er enghraifft yr ysgol goedwig. Mae’r ardaloedd dan do a’r tu allan yn cael eu defnyddio’n dda i ddatblygu medrau plant ar draws pob maes dysgu.

Mae’r lleoliad yn cael ei staffio’n dda gan weithwyr proffesiynol profiadol a chymwys sy’n cael eu defnyddio’n effeithiol; maent yn symud rhwng y meysydd dysgu i’r mannau lle y mae eu hangen, i helpu a chefnogi’r plant â’u dysgu. Mae ymarferwyr yn cymryd rhan mewn datblygiad proffesiynol a chânt gyfleoedd da i ddysgu gan eraill trwy ymweld â lleoliadau eraill i rannu arfer dda a gweld ffyrdd eraill o weithio. Caiff hyfforddiant a gwblheir gan yr ymarferwyr ei arfarnu’n effeithiol ac mae’n cysylltu’n llwyddiannus â chynnydd a lles y plant.

Mae cynllunio da ar gyfer anghenion am adnoddau yn y dyfodol a chaiff gwariant ei fonitro i sicrhau’r deilliannau gorau posibl i’r plant. Mae arweinwyr yn ymwybodol o faterion cyllidebol a chaiff cyfrifon eu harchwilio.

Yn gyffredinol, mae’r feithrinfa yn cynnig gwerth rhagorol am arian.

## Atodiad 1

**Adroddiad boddhad rhanddeiliaid**

**Ymatebion i'r holiadur i rieni**

Cafwyd llai na 10 ymateb. Ni ddangosir unrhyw ddata.

## Atodiad 2

**Yr arolygydd cofnodol**

| | |
|---|---|
| Mrs Anne Elizabeth Manning | Arolygydd Cofnodol |

**Copïau o’r adroddiad**

Mae copïau o’r adroddiad hwn ar gael yn y lleoliad ac oddi ar wefan Estyn (www.estyn.llyw.cymru)

## Rhestr termau

| | |
|---|---|
| **AGGCC** | Mae Arolygiaeth Gofal a Gwasanaethau Cymdeithasol Cymru (AGGCC) yn isadran o’r Adran Gwasanaethau Cyhoeddus a Pherfformiad yn Llywodraeth Cymru. |
| **Athro ymgynghorol awdurdod lleol** | Mae’r athrawon hyn yn darparu cymorth, arweiniad a hyfforddiant cyson i leoliadau nas cynhelir sy’n darparu addysg i blant tair a phedair oed. |
| **Y Cyfnod Sylfaen** | Menter gan Lywodraeth Cymru sy’n anelu at ddarparu cwricwlwm cytbwys ac amrywiol i ddiwallu anghenion datblygiadol gwahanol plant ifanc 3 i 7 mlwydd oed |
| **Cymdeithas Darparwyr Cyn Ysgol Cymru (WPPA)** | Cymdeithas wirfoddol annibynnol sy’n darparu gofal plant ac addysg cyn ysgol yn y gymuned. |
| **Cymdeithas Genedlaethol Meithrinfeydd Dydd (NDNA)** | Mae’r gymdeithas hon yn anelu at wella datblygiad ac addysg plant yn eu blynyddoedd cynnar, trwy ddarparu gwasanaethau cymorth i aelodau. |
| **Cymdeithas Broffesiynol Gofal Plant a’r Blynyddoedd Cynnar (PACEY)** | Mae hon yn gymdeithas ag aelodaeth broffesiynol sy’n gweithio gyda gwarchodwyr plant cofrestredig i sicrhau gofal plant, chwarae, dysgu a chymorth teulu o ansawdd uchel yn lleol yn y cartref. |
| **Meysydd Dysgu** | Y rhain yw saith maes cwricwlwm y Cyfnod Sylfaen mewn lleoliadau cyfrwng Saesneg. (Nid yw’n ofynnol i leoliadau cyfrwng Cymraeg addysgu datblygu’r Gymraeg am mai dyma yw iaith y lleoliad yn barod.) Mae’r Meysydd Dysgu fel a ganlyn:<br>• datblygiad personol a chymdeithasol, lles ac amrywiaeth ddiwylliannol<br>• medrau iaith, llythrennedd a chyfathrebu<br>• datblygiad mathemategol<br>• datblygu’r Gymraeg<br>• gwybodaeth a dealltwriaeth o’r byd<br>• datblygiad corfforol<br>• datblygiad creadigol |
| **Partneriaeth Datblygu'r Blynyddoedd Cynnar a Gofal Plant (PDBCGP)** | Mae’r bartneriaeth awdurdod lleol hon yn cymeradwyo lleoliadau fel darparwyr addysg. Mae ganddi’r grym hefyd i dynnu cyllid yn ôl o leoliadau nad ydynt yn cydymffurfio ag amodau cofrestru’r bartneriaeth. |

| | |
|---|---|
| **Proffil asesu datblygiad plant y Cyfnod Sylfaen (PADP)** | Proffil asesu wrth fynd i mewn i'r Cyfnod Sylfaen; gofyniad statudol mewn ysgolion o Fedi 2011 ac mewn lleoliadau o Fedi 2012. |
| **Mudiad Meithrin** | Mudiad gwirfoddol, sy'n anelu at roi'r cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru i elwa o wasanaethau a phrofiadau'r blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. |